

# Ymateb UCAC i'r ymgynghoriad: Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder

Chwefror 2015

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

## **A ydych chi'n cytuno â'r buddiannau a fyddai'n dod yn sgil ei wneud yn ofynnol bod consortia yn gosod gwella asesiadau athrawon o fewn cynlluniau busnes blynyddol y consortia rhanbarthol (fel yn achos y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol) ar ôl 2015-16?**

Tra'n cydnabod mai dyma'r datblygiad naturiol yn sgil y newidiadau yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, mae UCAC yn gynyddol bryderus nad ydy'r gallu o ran gweithwyr gan y consortia i gyflawni'r holl ofynion newydd yn foddhaol. Mae hyn yn wir iawn o safbwynt yr Awdurdodau Lleol gan fod eu gwasanaethau addysg wedi cael eu crebachu dros y blynyddoedd diwethaf, ond ofna UCAC nad yw'r cynhwysedd gan y consortia i gyflawni'r gofynion newydd sydd wedi dod i'w rhan.

Pan ystyrir y bydd cyfrifoldeb cefnogaeth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn symud i'r Consortia ac mae'n debygol y bydd cefnogaeth i'r cwricwlwm newydd yn dilyn Adroddiad Graham Donaldson, hefyd, yn disgyn ar y Consortia, credwn fod lle i'n pryder y bydd y menyn yn cael ei osod yn llawer 'rhy denau ar y bara.' Oni bai y gwelir arian sylweddol, ychwanegol, yn cyrraedd y Consortia i gyflogi staff ychwanegol i ymgymryd â'r dyletswyddau newydd yna ein pryder yw na fydd y gwaith yn cael ei wneud yn iawn.

Mae ein haelodau wedi datgan pryder y gallai'r Consortia dynnu athrawon allan o ysgolion i wneud y gwaith yma. Er y byddai hyn yn golygu bod athrawon â phrofiad yn y meysydd hyn yn greiddiol i'r broses, byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein hysgolion sydd yn hollol annheg. O'r hyn a welwyd eisoes, yr un ysgolion sy'n cael ei heffeithio pan fydd aelodau o'r gweithlu yn cael eu tynnu allan. Gall hyn, wrth reswm, arwain at ostwng mewn safonau yn y fam ysgol a byddai hynny'n arwain at golli ewyllys da penaethiaid. Gallai penaethiaid beidio caniatáu i aelodau o'r gweithlu adael yr ysgol i gynnig hyfforddiant mewn ysgolion eraill.

Os dyma yw y penderfyniad yna dylid cadw at y penderfyniad am gyfnod penodedig o amser fel bod y drefn yn gwreiddio a bod cyfle i bawb sydd yn ymwneud â'r drefn arfer yn iawn a hi.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn yr adran Gwella Ysgolion yn cyfeirio at Awdurdodau Lleol a Consortia a nid yw'n hollol eglur o'r bwriad am gyfrifoldeb adrodd am systemau asesiad athrawon.

Cred UCAC mae defnyddio'r model cenedlaethol a'r cynlluniau busnes blynyddol yw'r ffordd gorau o gyflwyno unrhyw gyfrifoldeb newydd yn hytrach na deddfu yn y maes. Byddai'n ddefnyddiol bod Llywodraeth Cymru'n paratoi amlinelliad o paramedrau a fframwaith ar gyfer adrodd fel bod cysondeb yn y cynnwys a'r dull adrodd.

Mae'n ymddangos yn rhesymol i gyflwyno'r newid hwn, sef cynnwys monitro a gwella safonau asesiad athrawon fel elfen benodol o gynlluniau busnes y Consortia ar ôl 2015-16, ond peri'r gofidiau am allu'r Consortia i gyflawni'r gwaith.

## **A ydych chi'n cytuno nad oes angen ar hyn o bryd i ni osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu adroddiad blynyddol ar wahân?**

Yn ôl yr ymateb a dderbyniwyd gan ein haelodau, cred UCAC mai dyblygu gwaith yn ddiangen fyddai i'r Awdurdodau Lleol baratoi adroddiad yn ogystal. Os mai'r Consortia fydd â'r cyfrifoldeb dros gysondeb yr asesiadau, yna hwy ddylai adrodd i'r Llywodraeth a dyblygu gwaith yn ddiangen fyddai unrhyw beth arall.

## **A ydych chi'n cytuno y byddai cyfranogiad statudol mewn cymedroli grwpiau clwstwr ar ôl 2015-16 yn fuddiol i ddibynadwyedd asesiadau athrawon?**

Mae UCAC yn gweld gwerth mawr mewn deialog broffesiynol ynglŷn â safonau a'r hyn a ddisgwylir ym mhob lefel neu ddeiliant ar draws yr ystod oedran. Gall gynnig cyfleoedd i rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth ac i feithrin sgiliau. Gall athrawon dibrofiad elwa'n fawr o hyn ac, mewn gwirionedd, mae'n gyfle am ddeialog broffesiynol gwerthfawr i ymarferwyr yn gyffredinol.

Nodir yn y ddogfen ymgynghorol bod y mwyafrif o ysgolion yn barod yn cymryd rhan mewn cymedroli grwpiau clwstwr a chredwn bod modd sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan heb orfod deddfu ar y mater.

Mae angen rhoi ystyriaeth i faterion eraill er mwyn hwyluso mynediad at sesiynau cymedroli, e.e. sut i ddatrys heriau rhyddhau athrawon i fod yn rhan o broses cymedroli gydag athrawon eraill. Mae yna gost (gall fod yn gost sylweddol) i ysgolion sydd angen rhyddhau athrawon a thalu am wasanaeth cyflenwi. Mae yna gost hefyd o ran colli amser addysgu. Mae posibiliadau defnyddio rhai diwrnodau HMS at y pwrrpas ond gyda chymaint o flaengareddau i'w cyflwyno mae angen y diwrnodau HMS am faterion eraill.

Yn yr oes dechnolegol hon onid oes modd i ddefnyddio technoleg i helpu efo'r gwaith o gymedroli trwy ddefnyddio Hwb+ neu fideo gynadledda ar adegau? Byddai hyn yn lleihau'r angen i athrawon deithio bob tro ar gyfer y dasg, ond mae cyfarfod wyneb i wyneb yn ddefnyddiol wrth wneud y fath waith.

Mae cysondeb mewn asesiadau rhwng ysgolion wedi bod yn bryder ers blynyddoedd a pery gwahaniaeth barn am lefelau yn aml rhwng Cyfnod allweddol 2 a 3. Mae ein haelodau yn gosod pwysigrwydd mawr ar roi cyfundrefn drefnus yn ei lle, sydd wedi ei chynllunio'n iawn cyn y gwneir hyn yn weithredol. Rhoddwyd cymaint o gynlluniau yn weithredol yn y gorffennol e.e. FfEY a'r Y Fframwaith Sgilia, gan wario arian sylweddol arnynt, dim ond iddynt gael eu hanghofio yn fuan iawn. Cred ein haelodau y dylid creu cynllun peilot o unrhyw gynllun cymedroli fel bod modd ei asesu a'i addasu yn unol â'r darganfyddiadau a wneir trwy'r cynllun peilot. Cred UCAC fod llawer o gynlluniau wedi cael eu taflu i ysgolion yn ddiweddar heb roi ystyriaeth llawn i'r holl oblygiadau posib.

## **A ydych chi'n cytuno mewn egwyddor, y dylai cymedroli grwpiau clwstwr gael ei estyn i gynnwys y Cyfnod Sylfaen?**

Rhaid canmol Llywodraeth Cymru am sefydlu'r Cyfnod Sylfaen yn ysgolion Cymru. Mae'n raglen blaengar ac o'i weithredu a'i ariannu'n gywir bydd yn arwain at godi safonau fel y mae eisoes wedi dechrau gwneud.

Mae UCAC o'r farn fod asesu plant trwy brofion ym mlwyddyn 2 yn hollol groes i athroniaeth clodwiw y Cyfnod Sylfaen. O weld diwedd ar y profion ym Mlwyddyn 2, yna y gallai grwpiau cymedroli fod yn ddefnyddiol i sicrhau cysondeb o fewn a rhwng ysgolion.

Nododd cyn -Brif Arolygydd Estyn, Ann Keane, yn ddiweddar, bod rhai ysgolion wedi troi i ffwrdd oddi wrth egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac o ganlyniad bu gostyngiad yn eu safonau. Mae pryder gennym y byddai grwpiau cymedroli yn y Cyfnod Sylfaen yn gosod mwy o bwysau ar ysgolion ac y gallai hyn yn ei dro anfon ysgolion i adael egwyddorion sylfaenol y Cyfnod Sylfaen o'r neilltu.

## **A ydych chi'n cytuno y byddai safonau asesiad athrawon yn gwella yn sgil cyflwyno system wirio newydd**

Nid yw bodolaeth system wirio allanol newydd yn mynd i arwain yn naturiol at wellhad mewn safonau asesiadau athrawon.

Mae'r cynnig o greu model o ddefnyddio sefydliad annibynnol i gymryd samplau o waith disgyblion ar wahanol lefelau ar hap, i'w gwirio, adrodd ar y broses i'r ysgolion, ac adrodd ar y canlyniadau yn ôl pynciau perthnasol, yn debyg iawn i'r broses sydd wedi bodoli ar gyfer gwaith cwrs ac Asesiadau dan Rheolaeth ar gyfer arholiadau TGAU a Safon U/UG. Mae cyflwyno'r sampl o waith yn cymryd llawer o amser paratoi, gan osod cefndir pob tasg ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer ei gwblhau (e.e. gwaith dosbarth, 3 awr, 1 awr amser cynllunio, beth oedd y sbardun, ac ati) a chynnwys cyfiawnhad am y marc gan yr athro.).

Rydym yn bryderus am y llwyth gwaith sylweddol ychwanegol allai ddeillio o baratoi'r samplau (yn enwedig yn y sector cynradd lle byddai un athro'n gorfod paratoi samplau mewn nifer o bynciau), y gost o'r broses caffael ac o dalu am wasanaeth sefydliad annibynnol a'r gost o'r holl broses yn gyffredinol mewn cyfnod o gynni ariannol difrifol ym myd addysg. Nid oes digon o fanylion yn y ddogfen i ni wybod.

Mae'r broses o samplu a derbyn adroddiad nol wedi bod yn gymorth i ysgolion uwchradd dros y blynyddoedd i sicrhau ansawdd ar gyfer canlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion sydd yn sefyll arholiadau allanol, serch hynny, credwn ar hyn o bryd na fyddai'r manteision i'r fath gyfundrefn ar gyfer CA2 / CA3 yn ddigon i gyfiawnhau'r gost sylweddol tebygol (o ran arian a llwyth gwaith).

Mae hefyd lle i sefydlu trefniadau a gwneud cymaint o bethau eraill allai wneud gwahaniaeth sylweddol heb fynd i'r fath gost.

Tra'n gwerthfawrogi'r angen am sicrhau dibynadwyedd asesiadau athrawon mae UCAC, hefyd, yn bryderus y gallai trefn o'r fath roi pwysau gwaith ychwanegol sylweddol ar ein haelodau. Rydym yn barod yn clywed am yr angen mewn rhai ardaloedd i gyflwyno ystod eang o dasgau i'r Consortia. Golyga hyn, er enghraifft, bod athrawon Cymraeg, Saesneg a leithoedd Modern yn cyflwyno 9 tasg (3 Llafar; 3 Darllen; 3 Ysgrifennu) fel rhan o broses cymedroli gyda Mathemateg a Gwyddoniaeth a phob pwnc cwricwlaidd arall yn cyflwyno 6 tasg. Mae cymhlethdod gweinyddu a chadw trefniant ar ddeunydd a gaiff ei recordio yn creu pwysau gwaith ychwanegol ar athrawon. Mae UCAC yn ymwybodol iawn o'r adborth a dderbyniwn gan ein haelodau fod llwyth gwaith gormodol ar athrawon y dyddiau hyn ac y gallai hyn ychwanegu at sefyllfa sydd eisoes yn wael iawn.

Os symudir i broses samplu dylai hyn fod gan gorff annibynnol, ond pryderwn am y diffyg amser i sefydlu rhywbeth yn ystod y flwyddyn hon – mae angen dysgu o'r problemau sydd wedi codi yn y gorffennol o weithredu ar frys heb beilota ymlaen llaw. Rydym hefyd yn bryderus am y gost tebygol sylweddol ar adeg pan mae problemau ariannol yn mynd i arwain at golli swyddi athrawon, a hynny hyd yn oed mewn ysgolion lle mae niferoedd yn codi. Nid oes digon o sylwedd yn y ddogfen ymgynghorol o ran manylion i ni wybod faint yn union o waith ychwanegol byddai'n dod o'r fath gyfundrefn ac mae ein haelodau yn barod yn gwegian dan straen llwyth gwaith gormodol.

Ar y cyfan cytunwn y byddai mabwysiadu system gymedroli yn arwain at well dealltwriaeth o lefelau a deilliannau ac at mwy o gysondeb rhwng ysgolion sydd ei wir angen ond heb sicrhau dealltwriaeth dda trwy hyfforddiant digonol ni ellir sicrhau gwelliant yn safonau'r asesiadau.

Dywed ein haelodau fod peth ansicrwydd yn bodoli gan fod cymaint o ofynion ar athrawon o safbwynt asesiadau athrawon a'r profion cenedlaethol. Wrth gwrs mae adroddiad Yr Athro Donaldson yn mynd i daflu mwy o ofynion ar y proffesiwn ac efallai newid y gyfundrefn asesu.

Tra gwelwn rinwedd mewn llawer o ddatblygiadau byd addysg, yn y gorffennol mae'r amseriad eu cyflwyno wedi bod yn anffodus; mae'n ymddangos nad oes gwir gynllun tymor hir yn bodoli ond yn hytrach ymateb mympwyol cyflym, ymateb sydd yn aml heb ei gynllunio'n iawn na'i effeithiau wedi'u treialu. Mae ceisio sefydlu'r system samplu o'r flwyddyn academaidd hon (a rydym bron hanner ffordd drwyddi'n barod cyn i'r ymgynghoriad gau) yn wallgof!

## **A ydych chi'n hapus i'r model hwn gychwyn yn 2014-15 os bydd cytundeb, gyda deddfwriaeth yn dilyn yn unig os bydd angen?**

Na. Mae ceisio sefydlu'r system samplu o'r flwyddyn academaidd hon (a rydym bron hanner ffordd drwyddi'n barod cyn i'r ymgynghoriad gau) yn wallgof!

Credwn ar hyn o bryd na fyddai'r manteision i'r fath gyfundrefn ar gyfer CA2 / CA3 yn ddigon i gyfiawnhau'r gost sylweddol tebygol (o ran arian a llwyth gwaith).

Credwn fod yn rhaid rhoi cynllun peilot yn ei le yn gyntaf fel bod modd dysgu gwersi a thrwy adolygu llyfnhau'r broses gan wneud y cynllun yn fwy hylaw a haws ei weithredu. Mae gwersi amlwg i'w dysgu o gynlluniau eraill a gyflwynwyd heb eu treialu yn iawn.

Mae angen prisio'r fath system a gwybod yn union pa ofynion byddai ar athrawon, Awdurdodau Lleol a'r Consortia.



**UCAC**  
Undeb  
Cenedlaethol  
Athrawon  
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | [ucac@athrawon.com](mailto:ucac@athrawon.com)

[facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

[www.athrawon.com](http://www.athrawon.com)